

# Asiant Cefnffyrdd Gogledd a Chanolbarth Cymru

## Peiriannydd Cynnal a Chadw Strwythurau

Pecyn Recriwtio

# Croeso gan y Pennaeth Gwasanaeth




Mark McNamara
PENNAETH GWASANAETH ACGCC

Yn yr ACGCC rydym yn helpu i greu rhwydwaith ffyrdd sy'n cysylltu pobl a lleoedd mewn modd mwy diogel, a mwy dibynadwy.

Rydym yn gweithio ar brosiectau ar draws Gogledd a Chanolbarth Cymru sy'n mynd i'r afael â rhai o heriau mwyaf tyngedfennol y wlad. O seilwaith cymhleth, cynyddu anghenion trafnidiaeth, a newid yn yr hinsawdd – rydyn ni'n cyfuno arloesi, arbenigedd a thechnoleg i wneud Gogledd a Chanolbarth Cymru yn lle gwell i fyw, gweithio ac ymweld ag ef.


Gallwch gyfrannu at waith fydd yn cael effaith gadarnhaol barhaol ar eich cymuned leol gyda sefydliad lle mae amrywiaeth, tegwch a chynhwysiant yn werthoedd a rennir. Rydym wedi ymrwymo i feithrin amgylchedd gwaith sy'n gefnogol, yn barchus ac yn gynhwysol, gyda chyfleoedd gwych ar gyfer twf.
Beth am roi cynnig arni? Byddem yn hapus iawn i ystyried eich cais i ymuno â'n tîm medrus, brwdfrydig a chyfeillgar.




# Ble rydym wedi’n leoli?

## Dros 250 o weithwyr ar draws Gogledd a Chanolbarth Cymru

- **Aberaeron, Ceredigion**
- **Bangor, Gwynedd**
- **Conwy**
- **Dolgellau, Gwynedd**
- **Helygain, Sir y Fflint**
- **Llandrindod, Powys**
- **Drenewydd, Powys**






**Cyflog:** £36,124– £37,938

**Cyfnod:** Parhaol

**Un o'r lleoliadau isod;**

**Lleoliad: Halkyn, Conwy, Bangor, Llandrindod, Dolgellau, Aberaeron, Newtown, i gynnwys gweithio hybrid**

**Dyddiad cau:** 27/03/2025 10:00

**Ffurflenni cais a manylion pellach ar gael ar wefan Cyngor Gwynedd www.gwynedd.llyw.cymru neu drwy ffonio 01286 679076.**

**Ymgeisiwch**

# Pwrpas y swydd

Cynorthwyo'r Uwch Beiriannydd Cynnal a Chadw Strwythurau i reoli archwiliad strwythurau Cefnffyrdd a'r rhaglenni cynnal a chadw strwythurau priffyrdd arferol ar gyfer oddeutu 2400 o strwythurau. Cymryd rôl arweiniol i sicrhau y cyflawnir gofynion llwyddiannus Llawlyfr cynnal a chadw Cefnffyrdd Llywodraeth Cymru a CS 450 yn llwyddiannus.



# Cyfrifoldebau

- Datblygu a chynnal perthynas ymarferol a phroffesiynol gyda chynrychiolwyr Llywodraeth Cymru, Darparwyr Gwasanaeth Awdurdodau Partner ACGChC, Contractwyr ac Ymgynghorwyr allanol (fframwaith ac heb fod ar y fframwaith).

- cynorthwyo i baratoi amcangyfrifon costau, cynnal asesiadau risg, cynllunio gofynion staff archwilio, cynhyrchu rhaglenni a rhagolygon gwariant. Monitro cynnydd gwirioneddol yn erbyn y rhagolygon a chymryd camau adferol angenrheidiol.

- cynnal archwiliadau Strwythurau'r Briffordd a rheoli gwaith cynnal a chadw arferol strwythurau

- cynorthwyo i fonitro amcanion strategol yr Asiantaeth i sicrhau bod yr Uned yn perfformio ar ei gorau ac y cyflawnir prif dargedau.

- gweithredu fel Goruchwyliwr ar gyfer swyddogaethau Cynnal a Chadw arferol ble bo angen.

- ymgymryd â chyfrifoldebau ACGChC fel y'u nodir gan Reoliadau CDM.

- arolygu goruchwyliaeth gwaith ariannol, gweinyddol a rheolaeth dechnegol gweithgareddau cynnal a chadw strwythurau'r briffordd.

- datblygu arbenigedd o ran systemau a meddalwedd cyfrifiadurol yn ymwneud â chynnal a chadw e.e. IRIS LlC a chynorthwyo'r Uwch Beiriannydd Cynnal a Chadw Strwythurau â'r materion hyn yn yr Uned i uchafu perfformiad yr Uned Rheoli Pontydd.

- cysylltu gydag awdurdodau eraill gan gynnwys LlC, ymgymerwyr statudol, awdurdodau eraill, ac unigolion sy'n ymwneud â holl agweddau darparu'r gwasanaeth.

- goruchwylio ac arwain gwaith a datblygiad staff eilaidd.

- adrodd wrth, a derbyn cyfarwyddiadau gan staff uwch, a dyletswyddau gweinyddol a phroffesiynol eraill sy'n gymesur ag awdurdod y swydd.

- Ymgymryd ag unrhyw ddyletswydd arall rhesymol sy'n cyfateb â lefel cyflog a lefel cyfrifoldeb y swydd.




# Manylion Person

## Dylech gyfeirio at y meini prawf penodol i'r swydd hon yn eich ffurflen gais.

## Meini prawf penodol i'r swydd

### Nodweddion personol:

### Hanfodol

Yr ydym yn chwilio am berson sydd yn arddangos mentergarwch personol a'r gallu i ddelio â phobl ar bob lefel mewn modd cwrtais a phroffesiynol, yn gallu cymell chi eich hun, yn frwdfrydig ac yn ymroddedig, ac yn gallu gweithio a chyfrannu'n effeithiol fel rhan o dîm amlddisgyblaethol. Gallu gweithio dan bwysau, gallu ysgogi staff ar bob lefel a sgiliau trefnu da. Yn gallu gweithio gydag ychydig o oruchwyliaeth ac yn gallu blaenoriaethu a gweithio dan bwysau ac yn gallu delio â therfynau amser gwaith.

### Cymwysterau a hyfforddiant personol:

Chwylio am berson sydd a HNC mewn pwnc peirianneg a phum mlynedd o brofiad yn y diwydiant NEU radd mewn pwnc Peirianneg gyda parodrwydd i symud ymlaen yn weithredol tuag at gynllun sector cenedlaethol 31 mewn arolygu strwythurau priffyrdd.

### Profiad perthnasol:

Profiad o ddylunio, archwilio neu gynnal a chadw strwythurau priffyrdd.

### Sgiliau a gwybodaeth arbenigol:

Sgiliau TG, defnyddio rhaglenni Microsoft Office gan gynnwys Word ac Excel, Gwybodaeth o ddeddfwriaeth iechyd a diogelwch a gweithredu technegau rheoli risg a trwydded yrru gyfredol.

# Gweithio i Asiant Cefnffyrdd Gogledd a Chanolbarth Cymru

Rydym wedi ymrwymo i hyfforddi a datblygu ein staff:



- 29.5 o wyliau blynyddol y flwyddyn.
- Gweithio oriau hyblyg



- Cyflog cynyddol.
- Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol. Ceir rhagor o  wybodaeth ar wefan Cronfa Bensiwn Gwynedd.



- Cynlluniau cymorth i brynu car ac i feicio i’r gwaith.
- Arbedion ar siopa bwyd, gwyliau, mynd allan i fwyta, DIY, offer trydanol, yswiriant, moduro, a llawer mwy.



- Cyfleoedd hyfforddi a datblygu mewnol ac allanol.
- Cyfraniad tuag at aelodaeth o gyrff proffesiynol sy'n berthnasol i'r gwaith.



- Gwasanaeth cwnsela cyfrinachol am ddim i staff.
- Absenoldeb ar gyfer mamolaeth, tadolaeth a mabwysiadu.